

TRAFNIDIAETH HYDREF 2018

Sut rydyn ni'n dod ymlaen – mae'n amser i newid i gerbydau ULEV

25/10/2018 Sang-Jin Park
Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol



Lleihau. Ailddefnyddio. Ailgylchu.

Dyma eiriau rydyn ni'n eu defnyddio drwy'r amser yn ein swyddfa lle mae dodrefn ail-law ac arwyddion 'dim cwpanau papur' yn croesawu ymwelwyr.

Trafnidiaeth yw un o'n pryderon mwyaf yn y swyddfa bob amser, oherwydd ei arwyddocâd yn nhermau maint y lleihad sydd angen ei gyflawni i leihau allyriadau.

Yn ôl Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) trafndiaeth fydd yn cyfrannu'r mwyaf at leihad mewn allyriadau. Yn ei ymgynghoriad diweddar a lanswyd gan Lywodraeth Cymru, mae'n awgrymu model sy'n dangos dull posibl o leihau allyriadau'r sector drafnidiaeth fel cyfraniad i 80% o leihad yn [holl allyriadau Cymru yn 2050](#).

Mae cyrraedd 80% yn swnio'n dasg enfawr ond ydyw?

Felly beth rydyn ni'n ei wneud yn ein swyddfa?

Mae trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol bob amser wedi bod yn rhan anhepgor o ddiwylliant ein swyddfa. Mae rhai aelodau'r staff yn beicio neu gerdded i'r gwaith ond mae'r mwyafrif yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus fel eu prif ffordd o deithio pan fyddant yn cymudo. Mae pobl yn defnyddio cronfa feiciau'r swyddfa i fynychu cyfarfodydd lleol ac rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd drwy gynadledda fideo ble bynnag mae hynny'n bosib.

Oes yna unrhyw beth arall allwn ni ei wneud?

Pan fyddwn yn edrych am y cam nesaf, cafodd ein sylw ei dynnu at gerbydau allyriadau isel iawn (cerbydau ULEV).

Mae'r cynnydd technolegol a chymorth oddi wrth y llywodraeth yn gwneud cerbydau ULEV yn fwy deniadol ac ymarferol ar gyfer swyddfa fel ein swyddfa ni.

Fodd bynnag mae yna rwystrau sy'n atal llawer o bobl rhag prynu'r fath gerbyd. Nododd adroddiad a gynhyrchwyd gan [Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel](#) (OLEV) 9 prif rwystr, a'r gost yw un o'r tri rhwystr mwyaf cyffredin sy'n wynebu pobl.

Yn anochel, wrth i gerbydau ULEV ddod yn fwy poblogaidd, bydd prisiau'n gostwng. Fodd bynnag, fe fydd hi'n cymryd cryn dipyn o amser cyn y byddwn i gyd yn elwa o arbedion maint a fydd yn gosod cerbydau ULEV yn nwylo holl ddinasyddion Cymru.

Y cwestiwn yw beth fedrwn ni ei wneud yn AWR?

Ein hateb ni yw cynllun aberthu cyflog ULEV y byddwn yn ei weithredu o fis Tachwedd.

Bydd cerbydau ULEV ar brydles trwy gytundeb aberthu cyflog yn arbed costau ar unwaith mewn dull positif gan fod cerbydau ULEV yn gymwys ar gyfer budd-daliadau treth.

Mae cyflog gweithiwr yn cael ei leihau mewn cyfnewid am fudd-dal cyfatebol arall. Oherwydd y lleihad mewn cyflog, mae hyn yn arwain at rwymedigaeth treth incwm is i'r gweithiwr a llai o atebolrwydd yswiriant gwladol i'r ddau barti.

Budd ariannol ychwanegol o ddefnyddio cerbydau ULEV sy'n cael eu prydlesu trwy gytundeb aberthu cyflog yw bod gweithwyr yn gallu osgoi unrhyw un o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'i werth pan gaiff ei ailwerthu yn y dyfodol.

Mae gan lawer o gyrff cyhoeddus gynllun aberthu cyflog ar geir modur yn ei le. Efallai ei bod yn amser i ni leihau lefelau allyriadau CO2 gan annog y gyrff cyhoeddus hyn i symud i gynlluniau sy'n annog gweithwyr i brydlesu cerbydau ULEV?

Fe fyddai'n ddiddorol iawn i glywed eich syniadau am sut y gallwn gynyddu'r defnydd o gerbydau ULEV a'ch enghreifftiau chi o arfer arloesol yn ymwneud a lleihau allyriadau nwy o drafnidiaeth.

TRAFNIDIAETH HYDREF 2018

Trafnidiaeth Gymunedol a Chenedlaethau'r Dyfodol

26/10/2018 Llyr ap Gareth
Cymdeithas Cludiant Cymunedol DU

Mae'r gymuned ryngwladol yn wynebu heriau enfawr yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac adnoddau sy'n prnhau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn dadlau os yr ydym yn gobeithio mynd i'r afael â'r cwestiynau mawr hynny, bydd ymgysylltu mewn dull cynaliadwy â pholisi lleol yn hollbwysig. Rwyf eisiau amlygu sut mae rhai o'r heriau polisi lleol a bydeang yn cysylltu â'i gilydd drwy lens Trafnidiaeth Gymunedol.



Ar draws Cymru, mae gwirfoddolwyr a staff yn gweithio i ddarparu trafndiaeth fforddiadwy i bobl er mwyn iddynt fedru byw bywydau llawnach, gan hyrwyddo annibyniaeth a chydnerthedd, heb fynediad i geir preifat. Mae [Cymdeithas Cludiant Cymunedol DU](#) yn disgrifio trafndiaeth gymunedol fel:

“darparu datrysiadau o dan arweiniad y gymuned sy'n hyblyg a hygyrch mewn ymateb i anghenion trafndiaeth nad ydynt yn cael eu diwallu. Mae gweithredwyr lleol yn defnyddio popeth o fws mini i foped, a gwasanaethau yn cynnwys cynlluniau ceir gwirfoddol, gwasanaethau bysiau cymunedol, cludiant ysgol, cludiant ysbyty, deialu reid, olwynion i waith a gwasanaethau llogi grwpiau.

“Yn aml mae'n cynrychioli'r unig ffordd o deithio i lawer o bobl sy'n agored i niwed ac yn dioddef o arwahanrwydd, yn aml iawn bobl hŷn a phobl ag anableddau. Mae trafndiaeth gyhoeddus bob amser yn cael ei rhedeg am resymau cymdeithasol a byth er mwyn elw; yn aml iawn dyma'r drafndiaeth fwyaf dibynadwy, gydnherth a hygyrch o sicrhau y gellid cwrdd â'r ystod ehangaf o anghenion trafndiaeth.”

Edrychwch yn fwy manwl, ac efallai y byddwch yn sylwi bod y disgrifiad uchod eisoes yn cynnwys (o leiaf!) y meysydd polisi canlynol:


- Cymunedau
- Trafnidiaeth
- Iechyd
- Addysg
- Cyflogaeth
- Cydraddoldebau
- Unigrwydd ac arwahanrwydd

Yn ei hanfod, mae agenda Cenedlaethau'r Dyfodol yn edrych ar sut y medrwn ddefnyddio ein holl brofiadau mewn cymdeithas – profiadau busnes neu lywodraeth, neu elusennau a grwpiau cymunedol – er mwyn dod o hyn i ddatrysiadau i broblemau anodd, cymhleth a hirymarhous yn ogystal â heriau'r dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gael ei wneud mewn dull sy'n gynaliadwy heb gael effaith niweidiol ar genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r 'sut' mor bwysig â'r 'paham'. Yn ddelfrydol mwya'i gyd o bŵer a roddwn i gymunedau, mwya'i gyd yr ydym i gyd yn dysgu am sut i fynd i'r afael â phroblemau, a chymunedau'n medru adnabod problemau a helpu i lunio datrysiadau. Ym mholisi 'wonk-speak' dyna a olygwn pan fyddwn yn adeiladu 'cydnerthedd' neu 'gymunedau cydlynus'. Mae gweithredwyr trafndiaeth gymunedol yn rhan o'u cymunedau, wedi datblygu mewn ymateb i anghenion eu cymunedau, a ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r rhai a wasanaethir ganddynt.

I nodi amrywiaeth y polisi y mae trafndiaeth gymunedol yn effeithio arno, mae'r graff canlynol yn dangos y gwahanol fathau o siwrneiau a wnaed gan un o'n gweithredwyr ym Mhenllyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Mae gweithredwyr lleol yn adnabod ac yn ymateb i anghenion lleol, felly bydd y cymarebau'n wahanol iawn mewn mannau eraill, ond mae hyn yn rhoi syniad o amrywiaeth y gwasanaethau y mae'r sector yn rhoi mynediad iddynt. Felly ar gyfer ein dibenion yn y fan hon 'Am Benllyn, gweler Cymru'.



Ar y cyfrif diwethaf, gwnaethpwyd 2 filiwn o siwrneiau a 6 miliwn o filltiroedd gan deithwyr yn defnyddio trafndiaeth gymunedol yng Nghymru.

Gyda symudiad – un priodol – tuag at integreiddio trafndiaeth gyhoeddus a thuag at newid arferion teithio ar lefel Cymru gyfan, mae angen talu sylw i hyblygrwydd a lleisiau lleol a mannau agored fel y gall y trydydd sector helpu i ddylunio datrysiadau sy'n cynorthwyo'r amcanion ehangach hyn.

Yn rhy aml, trafndiaeth a mynediad yw'r rhan o'r jig-so nad yw'n cael ei gydnabod, ond rhan hollbwysig ar gyfer cyflawni pethau.

Mae trafndiaeth gymunedol yn darparu un datrysiad, gyda mentrau megis ein Prosiectau Cysylltu Cymunedau yng Nghymru.

Ar faterion ehangach, mae Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dangos sut y gall trafndiaeth gymunedol fod yn rhan o ddull gwahanol o feddwl am symudedd a chael llai o geir ar y ffyrdd, fel ffordd o wrthwynebu prosiectau adeiladu ffyrdd traddodiadol megis yr M4. Fel y dywedodd y Comisiynydd Sophie Howe yn ei hymateb i gynigion yr M4:

“Rhaid i'r Llywodraeth fedru dangos sut mae'r syniadau diweddaraf ar yr M4 (sy'n seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd 25 mlynedd yn ôl) yn adlewyrchu datblygiadau diweddar...a yw'r cynllun wedi ystyried sut y gallai gwasanaethau trafndiaeth gymunedol, sy'n chwarae rhan hollbwysig yn y dasg o gynorthwyo unigolion a chymunedau ledled Cymru drwy gynnig trafndiaeth hygyrch a chydlynus i bobl heb fynediad i ddulliau eraill o deithiol am amryw resymau, gael eu hariannu neu eu gwella i leihau'r angen i deithio ar yr M4?

Rydyn ni'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd yn y dyfodol, gan ganiatáu ymyrraeth bositif gan gymunedau lleol a nifer mawr o actorion cymdeithasol i fynd i'r afael â materion anodd a dylunio'r datrysiadau i'w hanghenion.

Y 7 nod llesiant a nodir gan y Ddeddf fel rhai i ni i gyd weithio tuag at eu cyflawni yw:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;
- A Chymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.

Mae gwaith sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gymunedol yr wyf wedi ei hamlinellu yn chwarae rhan fach ond un bwysig yn y dasg o gyflawni'r nodau hyn. Ein huchelgais yw gwneud mwy i ddatblygu modelau ar gyfer datrys problemau cymunedol sy'n ffurfio rhan hollbwysig yn y dasg o droi amcanion canmoladwy Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn realiti.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda grwpiau o bob cefndir er mwyn helpu i ddarparu datrysiadau i helpu pobl yng Nghymru i fyw ei bywydau i'r eithaf.

TRAFNIDIAETH HYDREF 2018

Roqib Monsur Llysgennad nextbike yn esbonio paham mae hon yw'r ffordd orau o deithio o gwmpas Caerdydd

1/11/2018 Roqib Monsur
Llysgennad Nextbike

Ers i'r cynllun rhannu beiciau gael ei lansio yng Nghaerdydd yn gynharach eleni, roeddwn i'n un o'r rhai cyntaf i ddefnyddio nextbike i deithio bob dydd ar draws y ddinas. Ar ôl eu defnyddio ychydig o weithiau, dechreuais siarad amdanynt yn frwdfrydig wrth fy ffrindiau a fy nheulu, neu wrth unrhyw un oedd yn barod i wrando, a'u cael hwythau i ddefnyddio nextbike hefyd.

Fe wnes i basio fy mhrawf gyrru pan oeddwn yn y chweched dosbarth, ac fel pawb o fy oedran yr adeg honno, roeddwn yn awyddus i gael fy nghar cyntaf. Fodd bynnag, penderfynais yn erbyn gwneud hynny, nid yn unig oherwydd prisiau yswiriant i bobl ifanc a chost petrol, ond hefyd oherwydd bod trafniadaeth gyhoeddus yn y ddinas yn wych. Gallem ddewis bws, trênn neu gerdded i unrhyw le y dymunwn, fel mynd i'r gwaith neu'r brifysgol.

Felly pan glywais fod [nextbike](#) yn dod i fy ninas i, roeddwn yn llawn cyffro ac yn awyddus i roi cynnig arni. Mae nid yn unig yn lleihau tagfeydd ac allyriadau co2, gan fod un car yn llai ar y ffordd, ond hefyd yn rhatach na defnyddio bws ac yn gynt na cherdded.

Er enghraifft, fel un sy'n berchen tocyn tymor, gall mynd i weld Dinas Caerdydd yn chwarae wythnos ar ôl wythnos fod yn rhwystredig ac yn wefreiddiol ar yr un pryd. Yn ystod buddugoliaeth gyntaf y Bluebirds yn ymgyrch yr Uwch Gynghrair yr wythnos ddiwethaf roedd yr awyrgylch yn anhygoel.

Ers i'r tîm gael ei uwchraddio, mae'r nifer o fynychwyr wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n beth da ond sydd hefyd yn golygu bod mwy o bobl yn mynd yno yn eu ceir ac yn defnyddio bysiau i fynd i'r stadiwm.

Mewn ymgais i leihau traffig ar ddiwrnod gêm, mae nextbike wedi gosod gorsaf rithwir yn Stadiwm Dinas Caerdydd gyda chynnig arbennig i rai â thocyn tymor i ddefnyddio beic am ddim ar ddiwrnodau gêm.

Ers hynny, mae fy siwrnai i'r gemau wedi bod mor hawdd, a gymaint yn fwy cyfleus nag aros am fws gorlawn mewn traffig, cyn ac ar ol y gêm.

Pam wnes i ddod yn Llysgennad Brand nextbike?

Mae nextbike wedi bod yn hynod o lwyddiannus ers i'r beiciau cyntaf gael eu sefydlu'n gynharach eleni. Ar ddiwedd yr haf, ar ôl defnyddio'r beiciau'n gyson, daeth cyfle i fod yn llysgennad brand, ac fe wnes giipio'r cyfle gan fyd mod yn credu yn y cynllun ac yn awyddus i weld mwy o bobl yn eu defnyddio.



Roqib Monsur
@MonsurMedia

Riding through the sunset with the [@nextbikeUK](#) [@journalistorks](#) [@danthomas909](#) #nextbikeadventures #RoathPark

5 9:39 PM - Jun 20, 2018

[See Roqib Monsur's other Tweets](#)

Roedd angen mwy o feiciau a mwy o orsafoedd ac ers mis Medi, mae 27 gorsaf ychwanegol a 250 o feiciau ychwanegol wedi eu sefydlu, ac yn awr mae yna 52 o orsafoedd a 500+ o feiciau, gyda chynlluniau i ehangu yn y dyfodol wrth i fwy o bobl fod yn awyddus i gael gorsafoedd yn agosach at eu cartrefi.

Dim ond chwe mis sydd ers i'r cynllun gychwyn ac rydyn ni eisoes wedi cyrraedd ein 100,000fed reid yn yr ychydig wythnosau diwethaf ac wedi cyrraedd un filiwn o rentiadau yn y DU ers i ni lansio'r cynllun.

#TrafnidiaethHydref nextbike a Chenedlaethau'r Dyfodol

Mewn partneriaeth â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'u cynllun #TrafnidiaethHydref, fe wnes i ddod yn gyfrifol am eu tudalen Instagram.

Ar ôl darllen eu hadroddiad newydd 'Trafnidiaeth Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol' ar dulliau amgen y gellid eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i wario'r £1.4 biliwn, roedd buddsoddi mewn seilwaith beicio'n un o'u hargymhellion.

Roeddwn ni eisieu dod i wybod pa mor hawdd oedd hi i deithio o gwmpas y ddinas am ddiwrnod ar y beic a beth oedd angen ei wneud i wella'r profiad i'r beiciwr, gan ddangos rhai o orsafoedd Caerdydd a'u hatyniadau tra'r oeddwn i wrthi.

I ddechrau – bron yn or-optimistaidd hwyrach – roeddwn yn meddwl y buaswn yn medru teithio i bob un o'r 52 gorsaf mewn un diwrnod. Ond wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen, sylweddolais na fyddai hynny efallai yn bosibl. Nid oherwydd fy ffitrwydd, well ychydig efallai, ond oherwydd pŵer batri fy ffôn!

Heblaw am orfod aros unwaith neu ddwy ger soced plwg, llwyddais i deithio o gwmpas rhai manau, er enghraifft, gorsaf Stryd St John ger Castell Caerdydd hyd at orsaf bae Caerdydd ger Canolfan y Mileniwm.


Rwy'n crybwyll y gorsafoedd hyn, oherwydd mae'r seilwaith feicio drwy Rodfa Lloyd George, pan fyddwch yn mynd a dod o ganol y ddinas i'r bae yn hynod drawiadol. Mae llwybrau beicio ar wahân/i ffordd o'r ffordd fawr yn ddull gwych o wneud pethau'n ddiogelach i feicwyr ac yn annog mwy o bobl i roi cynnig arni. Rwyf wedi bod yn beicio ers yn ifanc iawn ac mae medru gyrru hefyd yn helpu i ragweld perygl, ond gallaf ddeall pa mor frawychus y gall beicio fod i rywun sy'n cychwyn, pan fydd ceir yn agos iawn atoch chi er enghraifft.

Mae'r adroddiad 'Trafnidiaeth Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol' yn dweud bod Cyngor Caerdydd eisieu i 50% o siwrneiau gael eu gwneud drwy gyfrwng trafndiaeth gynaliadwy erbyn 2021, gyda hynny'n cynyddu i 60% erbyn 2016. Credaf mai beicio yw un o'r dulliau mwyaf gwyrdd o deithio, ac mae camau mawrion wedi cael eu cymryd hyd yn oed yn ystod fy mywyd i. Rwy'n cofio amser pan nad oedd fawr ddim lonydd i feiciau na blychau beicio ger goleuadau traffig.

Ond mae angen i ni wneud mwy; gwella llwybrau beicio a seilwaith i wneud beicio'n ddiogelach, yn cynnwys newid y modd y mae pobl yn meddwl, paham ddylen ni feicio mwy a sut mae'n helpu'r amgylchedd yr ydym i gyd yn byw ynddo?



Gobeithio bydd nextbikes yn medru helpu'r broses honno ac rwy'n credu eu bod eisoes yn gwneud hynny. Mae pobl yn eu defnyddio'n fwy aml yn hytrach na'u ceir i fynd i'r gwaith neu gwrdd â ffrindiau. Rwyf hefyd wedi sylwi bod y berthynas rhwng beicwyr a modurwyr wedi gwella, ymddengys bod mwy o barch gan y naill at y llall. Wrth gwrs, mae yna feicwyr gwael fel y mae yna yrwyr gwael, ond yn fy mhrofiad i mae wedi dod yn fwy pluserus, a gobeithio byddwn ni'n gweld mwy o bobl ar ddwy-olwyn.



TRAFNIDIAETH HYDREF 2018

'Gogoniant' ceir trydan yng nghefn gwlad Cymru

30/10/2018 Neil Lewis

"Gyrrodd fy ngwraig a minnau LAN i'r Siop Fferm i gael brecwast yn Cross Hands – roedd hanner y gwefru wedi mynd – a fyddwn ni'n gallu cyrraedd adref... Beth ydw i wedi'i wneud?"

Roedd hynny ym mis Ionawr 2013. Fy nghar trydan (EV) cyntaf – Citroen C-zero gyda'i fatri cymharol fychan 14.5kWh. Roedd yn naid i'r tywyllwch go iawn.

Fy arbenigedd i oedd goleuadau ynni-ffeithiol a chynnyrch adnewyddadwy. Roeddwn i'n gwybod fod angen gweithredu'n ddewr yn wyneb newid hinsawdd (roedden ni'n llai ymwybodol o lygredd awyr bryd hynny).

Gwyddwn y gallwn i wefru fy ngherbyd trydan o'm paneli solar ac y byddai dros 90% o'r ynni hwnnw'n mynd tuag at fy symud yn fy mlaen – o'i gymharu ag effeithlonrwydd o lai na 20% yn fy hen Galaxy.

Yr hyn nad oeddwn i'n ei wybod oedd sut i'w yrru a ble i wefru bant o gartref. I bob pwrpas, roeddwn i'n sownd o fewn 35 milltir i'm cartref yng Nghaerfyrddin. Roedd y garej agosaf oedd yn gallu rhoi gwasanaeth iddo ym Mryste. Fe allai fod yn her!

Llamwch ymlaen at heddiw – dwi'n gyrru fy nhrydydd EV ac rydym ni newydd archebu pedwerydd ar gyfer fy ngwraig. Dwi wedi gyrru bron i 100,000 milltir ledled Cymru. Maen nhw'n bleser pur i'w gyrru – peidiwch â sôn am y 'torque'! Rydym ni wedi arbed cymaint o arian yn y pypiau.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Panel Rhynglywodraethol y Cenedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (IPCC) [adroddiad pwysig](#), yn dweud fod yn rhaid i lywodraethau weithredu ar frys, yn anghymharol ac yn bellgyrhaeddol erbyn 2030 er mwyn cyfyngu cynhesu bydeang i uchafswm o 1.5 gradd Celsius.

Ar nodyn cadarnhaol, mae technoleg fel EVau, cynnyrch adnewyddadwy, peiriannau ynni isel, LEDs a gridiau clyfar wedi gweld cynnydd eithriadol ers 2013. Maen nhw'n cynnig atebion a chyfleoedd i bob un ohonom.

Yn achos EVau, gallaf ddweud yn ddiatal eu bod nhw'n llawer mwy o hwyl i'w gyrru, yn rhad i roi tanwydd ynddyn nhw, a bod ganddyn nhw gyn lleied o ddarnau sy'n symud, mai prin y bydd angen eu trwsio. Mae cwmnïau tacsï ([@BlackpoolTaxis](#) @candctaxis) yn adrodd am wneud 200,000 milltir, a'r unig bethau y mae angen eu newid yw llafnau'r weipars a'r teiars. Ychydig fel brwsh Trigger yn Only Fools and Horses!

Dwi'n rhedeg fy nghar i oddi ar PVau gymaint â phosib, ond dwi hefyd yn derbyn trydan gwyrdd, felly dwi'n rasio ar wynt a heulwen (Cam 1 os ydych chi am ymladd yn erbyn newid hinsawdd).

Sy'n dod â mi at fater llygredd awyr... sori. Mae'n beth tipyn yn frawychus, a dim ond dechrau mynd i'r afael ag ef rydym ni. Mae'n ymddangos, os ydych chi'n llosgi tanwydd ffosil, mae'r nwyon egost yn ddrwg IAWN i ni.



Yn ôl y [Sefydliad Iechyd Bydeang](#) (WHO): “Dyw llygredd awyr ddim mond yn achosi problemau anadlu i blant ac oedolion,” esbonia Christian Schweizer, Swyddog Technegol yn Swyddfa Ewropeaidd WHO yn Copenhagen, “Mae hefyd yn achosi trawiad ar y galon, strôc, mae'n creu hafog i'ch system fetabolig, mae ganddo gyswllt â diabetes, ac fe all hyd yn oed effeithio ar iechyd plentyn cyn iddo gael ei eni.”

Mae e'n mynd yn ei flaen, fel nad oes rhaid i mi: “Un o'r achlysuron mwyaf arwyddocaol yn ein dealltwriaeth gynyddol o effeithiau iechyd ansawdd awyr oedd cyfathrebiad yn 2012 gan Asiantaeth Ryngwladol yr WHO ar Ymchwil i Ganser. Fe wnaeth hwnnw gategoreiddio allyriadau egost disel fel rhywbeth pendant oedd yn achosi canser, gan ei roi yn yr un categori perygl uchaf ochr yn ochr ag ysmegu ac asbestos.”

Mae gan sawl lleoliad ledled y DU ansawdd awyr ANGHYFREITHLON. Mae ysgolion yng Nghaerdydd yn ofid arbennig.

Os ydych chi wedi darllen hyn hyd at y pwynt hwn, byddwch chi wedi casglu bod angen i ni gerdded, mynd ar gefn ein beic, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus (a fydd yn cael ei drydaneiddio cyn bo hir?!) ac os oes wir angen i ni yrru car – rhannu EV.

Mae'r Alban yn newid y gêm o ran darparu pwyntiau gwefru trydan.

Ond os ydych chi'n byw yng Nghymru, byddwch yn barod i gael gwayw yn eich gwddf a daliwch eich pen-ôl yn dynn.

Bydd cipolwg sydyn at y [map pwyntiau gwefru'n](#) datgelu prinder enbyd o gyfleoedd gwefru ledled Cymru GYFAN.

Mae'n debygol fod gan Milton Keynes fwy o bwyntiau gwefru na'n gwlad gyfan ni. Mae Dundee newydd ennill gwobr fydeang.

Yn y cyfamser, os ydw i eisiau ymweld â pherthynas i'r gogledd o Gastellnewydd Emlyn, mae'n dipyn o broblem...



Serch hynny, mae gobaith i ni yma yng Nghymru. Fe wnaeth Plaid Cymru sicrhau £2 miliwn ar gyfer isadeiledd EV yn y gyllideb ddiwethaf. Ar hyn o bryd mae [ymgyngoriad chwe wythnos o hyd yn cael ei gynnal gan Bwyllgor Economi, Isadeiledd a Sgiliau'r Senedd](#).

Cafwyd ffanffer enfawr wrth i wefrwr cyflym cyntaf canolbarth Cymru agor yng Nghletwr, Tre'r Ddol, Ceredigion, gan Polar. Er cymaint o groeso sydd iddo, mae angen parau o bwyntiau gwefru cyflym ar bob un o'n priffyrdd bob 30 milltir ar fyrder. Gallai pob un o'n meysydd parcio gael 10-20 gwefrwr cyflym.

Mae Carmarthenshire Energy (@CarmsEnergy) yn gweithio gyda'n Cyngor i ddatblygu strategaeth. Yn y cyfamser, mae'r galw am EVau newydd yn trechu faint sydd ar gael i'w cyflenwi o 3:1. Mae pris EVau ail-law wedi dyblu dros y 6 mis diwethaf.

Mae'r newid yn digwydd ac mae'n cyflymu. Bydd yr awyr lân yn blasu'n felys – yr holl 'torque' yna...!

Nawr mae angen i ni weld cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n deffro a chofleidio 'gogoniant' EVau.